City and County of Swansea

# Minutes of the Pwyllgor Datblygu Polisi Economi ac Isadeiledd

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 20 Chwefror 2020 at 2.00 pm**

**Present**: Councillor V M Evans (Cadeirydd) Presided

| **Councillor(s)** | **Councillor(s)** | **Councillor(s)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | P Downing | P R Hood-Williams |
| W G Lewis | P Lloyd | P M Matthews |
| T M White | | |

**Officer(s)**

| | |
|---|---|
| Sally-Ann Evans | Uwch-gyfreithiwr |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Apologies for Absence**
Councillor(s): M A Langstone

---

**35 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**36 Cofnodion.**

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi yr Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2019 fel cofnod cywir.**

**37 Amnest ar wastraff (diweddariad).**

Dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd y bu peth dryswch ynghylch yr wybodaeth yr oedd Aelodau'n ei cheisio.

Cyfeiriodd yr aelodau at fenter a gynhaliwyd ychydig flynyddoedd yn ôl a oedd yn caniatáu i breswylwyr lleol waredu eitemau gwastraff yn gywir ac yn gyfleus yn eu wardiau. Roedd y fenter yn llwyddiannus wrth leihau'r achosion o dipio anghyfreithlon a chafwyd adborth cadarnhaol gan breswylwyr lleol. Yn ogystal, roedd cyfleuster a oedd yn caniatáu i breswylwyr gael gwybodaeth am ailgylchu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd y byddai darparu adnoddau ar gyfer gwastraff cymysg yn her, yn enwedig gan nad oedd dyraniad cyllidebol ar hyn o bryd ar gyfer y math hwn o fenter.

Nododd yr aelodau'r ffigurau ailgylchu cyfredol, problemau gyda gwastraff masnachol, cymariaethau ag awdurdodau lleol cyfagos mewn perthynas ag erlyniadau a gosod camerâu cudd mewn lleoliadau tipio anghyfreithlon.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd nad oedd rhai materion a godwyd gan yr aelodau yng cylch gorchwyl y Pwyllgor Datblygu Polisi. Fodd bynnag, byddai swyddogion yn llunio adroddiad am gyflwyno cynllun peilot yng nghyd-destun strategaeth ailgylchu'r cyngor.

Nodwyd ymhellach gan yr Aelodau y gallai mentrau o'r math hyn (ar yr amod nad oeddent yn mynd yn groes i bolisi cyfredol y cyngor) gael eu hariannu o fewn cyllidebau cymunedol pe baent yn dymuno gwneud hynny.

**Penderfynwyd** cyflwyno adroddiad i'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 16 Ebrill, 2020.

## 38 Cynllun Gwaith 2019/2020.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cynllun gwaith.

**Penderfynwyd** y dylai'r cynllun gwaith ar gyfer 2019/2020 gynnwys y canlynol:

| | |
|---|---|
| 19 Mawrth 2020 | 1) Adroddiad Blynyddol 2019/2020. |
| 16 Ebrill 2020 | 1) Amnest ar Wastraff (Diweddariad).<br>2) Goblygiadau Teithio Llesol yn Abertawe.<br>3) Strategaeth Toiledau Leol |

The meeting ended at 2.30 pm

**Chair**